

# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 3 Medi 2024

**Teitl:** Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Dadlwytho) 2019 (Felin-fach) (Gorchymyn Diwygio Rhif 12) 2024

**Pwrpas yr adroddiad:** Gofyn am awdurdod i wneud y Gorchymyn Rheoli Traffig uchod ac i gyhoeddi hysbysiad i'r perwyl yma yn y wasg leol

**I'w:** Benderfynu

## **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**

**Y Cyngorydd Keith Henson, Aelod Cabinet ar gyfer ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon**

## **Cyflwyniad**

Mae angen cyflwyno cyfyngiadau parcio newydd ar yr A482 yn Felin-fach er mwyn hwyluso mynd i mewn ac allan ar bwys yr Ysgol newydd sef Ysgol Dyffryn Aeron newydd gan wneud hynny drwy Orchymyn Rheoli Traffig.

Mae'r ymgynghoriad ar y cam cyntaf a'r ail gam wedi ei gwblhau o ran y cyfyngiadau newydd arfaethedig ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau.

Gofynnir am awdurdod felly i fwrw ymlaen â chreu Gorchymyn Rheoli Traffig a chyhoeddi Hysbysiad i'r perwyl hynny yn y wasg leol. Bwriedir cytuno gyda'r contractwr ar y dyddiad y bydd y Gorchymyn Rheoli Traffig yn dod i rym er mwyn ei gydlynu â chwblhau'r gwaith angenrheidiol sy'n ofynnol cyn agor yr ysgol newydd.

Mae'n fwriad hefyd i gyflwyno cyfyngiadau cyflymder newydd ar bwys yr ysgol newydd. Cânt eu cyflwyno gan y gwasanaeth drwy Orchymyn Rheoli Traffig ar wahân drwy ddefnyddio pwerau a ddirprwywyd ar gyfer cyflwyno terfynau cyflymder.

## **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.**

Na, ychwanegiad bach yn unig i'r trefniadau parcio cyfredol yw hyn ar ffyrdd sirol ac ni chaiff polisi newydd ei gyflwyno.

## **Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

**Hirdymor:** Amherthnasol

**Cydweithio:** Amherthnasol

**Cynnwys:** Amherthnasol

**Atal:** Amherthnasol

**Integreiddio:** Amherthnasol

**Argymhelliad:**

Argymhellir y dylai'r Cabinet gymeradwyo gwneud y Gorchymyn a chyhoeddi'r Hysbysiad priodol yn y wasg i'r perwyl hynny.

**Rhesymau dros y penderfyniad:**

Sicrhau diogelwch y ffyrdd ar bwys y mynediad i'r ysgol newydd.

**Trosolwg a Chraffu:**

Cymunedau Ffyniannus

**Fframwaith Polisi:**

Creu gwell ffyrdd a ffyrdd mwy diogel

**Blaenoriaethau Llesiant Corfforaethol:**

- Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
- Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
- Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu
- Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i gilydd

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:**

Caiff y costau gweithredu eu talu gan y Grant Ysgolion 21ain Ganrif fel rhan o adeiladu Ysgol Newydd Dyffryn Aeron. Bydd yn rhaid i'r gwaith gorfodi'r cyfyngiadau parcio a chynnal a chadw gael ei dalu o gyllidebau refeniw Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn y dyfodol.

**Goblygiadau cyfreithiol:**

Rheoliadau Gorchymynion Traffig Awdurdodau Lleol ( Gweithdrefnau) (Lloegr a Chymru) 1996, a diwygiadau.

**Goblygiadau Staffio:**

Bydd gorfodi'r trefniadau parcio yn gyfrifoldeb ar Wasanaethau Parcio'r Cyngor

**Goblygiadau eiddo / asedau:**

Yn dilyn hyn bydd yr arwyddion a marciau ffyrdd arfaethedig yn Asedau Priffyrdd i'w hymchwilio a'u cynnal a'u cadw.

**Risg(iau):**

Dim

**Pwerau Statudol:**

Deddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984

**Papurau Cefndirol:** Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Dadlwytho) 2019 (Felin-fach) (Gorchymyn Diwygio Rhif . 12) 2024

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Map yn nodi ystod yr argymhelliad

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**

Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol


**Swyddog Adrodd:**

Tom Delph-Janiurek, Uwch Beiriannydd

**Dyddiad:**

27/06/24

## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL



Rhodri Llwyd  
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol  
Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, SY23 3UE  
Highways and Environmental Services  
Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, SY23 3UE



## A482 Felinfach

© Hawfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans 100024419. Ni chaniateir i chi gopio, is-drwyddedu, dosbarthu neu werthu unrhyw ran o'r data hwn ar unrhyw ffurf i drydydd parti.  
© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey 100024419. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

Mae'r Cyngor yn cynnig gwneud Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Dadlwytho) 2019 (Felinfach) (Gorchymyn Diwygio Rhif 12) 2024. Bydd hyn yn cyflwyno Gwaharddiad newydd ar Aros ar Unrhyw Adeg ar y naill ochr a'r llall i'r A482 o 1.75 metr i'r gogledd o ffin ddeheuol yr eiddo sy'n dwyn yr enw Henllan, tua'r de hyd at 8 metr i'r de o bwynt terfyn deheuol presennol y terfyn cyflymder o 20mya. Gallwch weld y manylion ar-lein drwy fynd i <https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/teithio-ffyrdd-a-pharcio/yngyngoriadau/gorchymynion/> ac yn Swyddfa'r Post Felinfach, Felinfach, Llanbedr Pont Steffan SA48 8AE. Gallwch anfon gwrthwynebiadau, gan nodi'r rhesymau yn ysgrifenedig, at [cllc@ceredigion.gov.uk](mailto:cllc@ceredigion.gov.uk) neu i'r Gwasanaethau Cyfreithiol, drwy law Ystafell y Post, Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE i gyrraedd erbyn 05/06/2024.

The Council proposes to make the Ceredigion County Council (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Unloading) Order 2019 (Felinfach) (Amendment Order No.12) 2024. This will introduce a new Prohibition of Waiting At Any Time on both sides of the A482 from 1.75m north of the southern boundary of the property known as Henllan southwards to 8m south of the existing southern terminal point of the 20mph limit. Details may be inspected online at <https://www.ceredigion.gov.uk/resident/travel-roads-parking/consultations/orders/> and at Felinfach Post Office, Felinfach, Lampeter SA48 8AE. Objections, stating reasons in writing, to [cllc@ceredigion.gov.uk](mailto:cllc@ceredigion.gov.uk) or Legal Services, c/o Postroom, Ceredigion County Council, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE to be received by 05/06/2024.